# Panel Moeseg Ymchwil

# Polisi Apelio

| Fersiwn: | Paratowyd gan: | Dyddiad: | Cymeradwywyd gan: | Dyddiad adolygu: |
|---|---|---|---|---|
| Fersiwn 2.0 | Lisa Fisher | 5ed Chwefror 2020 | Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol > Y Senedd > Y Cyngor – Ionawr / Chwefror 2015<br><br>Adolygwyd gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol Chwefror 2020 | Chwefror 2022 |

**Anogir ymgeiswyr i gysylltu â moeseg@aber.ac.uk yn y lle cyntaf.**

1. Bydd y Panel Apêl yn gwrando apeliadau ynglŷn â phenderfyniadau a wneir gan y Paneli Moeseg Ymchwil sy'n dangos:

**a) Tystiolaeth y gellir ei dangos o ragfarn neu adolygu annigonol**
***NEU***

**b) Bod afreoleidd-dra gweithdrefnol sylweddol wedi effeithio ar benderfyniad y Panel ac wedi achosi amheuaeth ynglŷn ag a fyddai'r Panel wedi dod i'r un penderfyniad pe na bai'r afreoleidd-dra wedi digwydd.**

Y Weithdrefn Apelio

- Fel rheol, cyfeirir unrhyw gynnig fydd yn derbyn barn foesegol anffafriol yn ôl at yr ymgeisydd, gan nodi diffygion y cynnig, a chan roi'r cyfle i'r ymgeisydd ei gyflwyno eto (sef yr hyn a elwir yn wrthodiad lefel 3).

- Mae'r drefn apelio hon yn berthnasol i staff PA yn unig (yn cynnwys ymchwilwyr dan gontract) a myfyrwyr sydd wedi derbyn barn foesegol anffafriol, sy'n gofyn am gyflwyno cais newydd i'r Panel Moeseg Ymchwil nesaf (sef yr hyn a elwir yn wrthodiad lefel 4).

- Dylai'r ymgeisydd gyflwyno apêl ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr sy'n cadarnhau'r farn anffafriol ar gyfer y cais y dymunwch apelio yn ei herbyn. Bydd y Dirprwy Is-Ganghellor sy'n gyfrifol am Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi (neu'r sawl a enwebir ganddo, Pennaeth Ymchwil, Busnes ac Arloesi) yn derbyn y dystiolaeth ac yn pennu a oes sail ar gyfer apêl, os felly:

  - Bydd y Panel yn cael ei gynnull gan y Dirprwy Is-Ganghellor dros Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi neu ei ddirprwy, Pennaeth Ymchwil, Busnes ac Arloesi.

  - Gwrandewir yr apêl gan aelod o Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol, a fydd yn cadeirio'r gwrandawiad, ynghyd â 3 unigolyn priodol, yn unol â phenderfyniad y Dirprwy Is-Ganghellor neu ei ddirprwy enwebedig. Rhaid i'r Panel gynnwys Aelod Lleyg a Chynrychiolydd o blith y Myfyrwyr (os mai myfyriwr sy'n apelio).

    *Ni chaiff aelodau'r Panel sydd yn yr un adran â'r ymgeisydd fod yn rhan o'r drefn apeliadau. Ni chaiff Cadeirydd y Panel Moeseg Ymchwil gadeirio'r Panel Apêl, er mwyn sicrhau tegwch.*

  - Fel rheol, trefnir gwrandawiad apêl cyn cyfarfod nesaf y Panel Moeseg Ymchwil. Fodd bynnag, os yw'n fater brys, gall y Dirprwy Is-Ganghellor neu ei ddirprwy enwebedig, drwy arfer eu doethineb a chan gymryd i ystyriaeth natur ac angenrheidrwydd y cynnig, drefnu gwrandawiad apêl ar ddyddiad cynharach.

- Rhaid i'r llythyr apêl nodi'r rheswm/rhesymau dros yr apêl a chynnwys datganiad yn nodi ar ba sail y cynhelir yr apêl.

- Oni bai fod yr ymgeisydd yn cyrraedd ar yr amser a'r dyddiad penodol a gytunir, cynhelir yr apêl yn ei absenoldeb. Bydd y Panel Apêl yn cyflawni ei ddyletswydd ac yn darparu digon o rybudd am ddyddiad yr apêl, a bydd yn rhaid darparu unrhyw reswm eithriadol dros beidio â gallu mynychu cyn yr apêl. Gall yr ymgeisydd ddod â pherson addas gyda nhw i'r apêl (e.e. goruchwyliwr neu reolwr) i'w cefnogi; ond yr ymgeisydd ddylai siarad fwyaf yn ystod yr apêl.

- Gall y Cadeirydd gymryd un o'r camau isod yn erbyn yr apêl, a dylid sicrhau consensws wrth ddod i benderfyniad:

  I. Caniatáu'r apêl
  II. Cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol a gwrthod yr apêl

  Nid yw anfodlonrwydd yn unig yn rheswm digonol dros apelio. Ar ben hynny, nid yw'r Pwyllgor yn gyfrifol am benderfyniadau allanol ynglŷn â moeseg. Er bod hawl i apelio yn amodol ar bolisïau a gweithdrefnau cyhoeddedig y Panel Moeseg Ymchwil ynglŷn ag apeliadau, nid yw'n effeithio ar hawl yr ymgeisydd i bolisïau a gweithdrefnau presennol PA.

- Bydd pob penderfyniad a wneir yn derfynol. Bydd y Paneli Moeseg Ymchwil yn adrodd yn flynyddol i Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol ynglŷn ag unrhyw apeliadau a gynhaliwyd, at ddibenion archwilio a monitro.